



Cyfarfod

## PWYLLGOR CYNLLUNIO

Dyddiad ac Amser

**1.00 y.h., DYDD LLUN, 23AIN MEDI, 2019**

**\*NODER\***

**BYDD Y CYFARFOD YN CAEL EI WEDDARLLEDU**

[https://gwynedd.public-i.tv/core//cy\\_GB/portal/home](https://gwynedd.public-i.tv/core//cy_GB/portal/home)

Lleoliad

**Siambr Dafydd Orwig, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH**

**D.S.**

Rhagflaenir gan ymweliad safle mewn cysylltiad â chais rhif C18/0520/44/LL (Tŷ Moelwyn, Britannia Terrace, Porthmadog, LL49 9AB)

Aelodau'r Pwyllgor i gyfarfod o flaen mynedfa Maes Parcio Amlbwrpas y Cyngor, Caernarfon, am **10.15am**. Bwriedir bod ar y safle am oddeutu **10.50am**.

Pwynt Cyswllt

**Bethan Adams**

**01286 679020**

[BethanAdams@gwynedd.llyw.cymru](mailto:BethanAdams@gwynedd.llyw.cymru)

(DOSBARTHUYD: 13/09/19)

## **PWYLLGOR CYNLLUNIO**

### **Aelodaeth (15)**

#### **Plaid Cymru (8)**

Elwyn Edwards  
Berwyn Parry Jones  
Elin Walker Jones  
Gareth A. Roberts

Y Cynghorwyr

Simon Glyn  
Huw Gruffydd Wyn Jones  
Edgar Wyn Owen  
Gruffydd Williams

#### **Annibynnol (4)**

Eric M. Jones  
I. Dilwyn Lloyd

Y Cynghorwyr

Anne Lloyd Jones  
Eirwyn Williams

#### **Llais Gwynedd (1)**

Y Cynghorydd  
Owain Williams

#### **Annibynnol Unedig Gwynedd (1)**

Y Cynghorydd  
Louise Hughes

#### **Aelod Unigol (1)**

Y Cynghorydd  
Stephen W. Churchman

## TREFN SIARAD AR GEISIADAU CYNLLUNIO YN Y PWYLLGOR CYNLLUNIO

Mae'r Cyngor wedi penderfynu rhoddi'r hawl i 3ydd parti siarad ar geisiadau cynllunio yn y Pwyllgor Cynllunio. Mae'r daflen hon yn amlinellu'r trefniadau gweithredol arferol ar gyfer siarad yn y pwyllgor.

1.	Adroddiad y Gwasanaeth Cynllunio ar y cais cynllunio yn cynnwys argymhelliad.	
2.	Os oes cais wedi ei dderbyn gan 3ydd parti i siarad, bydd y Cadeirydd yn gwahodd y siaradwr ymlaen	
3.	Gwrthwynebydd, neu gynrychiolydd o'r gwrthwynebwyr yn cael annerch y pwyllgor	3 munud
4.	Ymgeisydd, gynrychiolydd yr ymgeisydd(wyr) neu Asiant yn cael annerch y pwyllgor	3 munud
5.	Aelod(au) Lleol yn cael annerch y pwyllgor	10 munud
6.	Cadeirydd y pwyllgor yn gofyn am gynigydd ac eilydd i'r cais cynllunio	
7.	Y pwyllgor yn trafod y cais cynllunio.	

## RHAGLEN

### 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol a nodi materion protocol.

### 3. MATERION BRYD

I nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

### 4. COFNODION

6 - 12

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor hwn, a gynhaliwyd ar 2 Medi 2019, fel rhai cywir.

### 5. CEISIADAU AM GANIATÂD CYNLLUNIO

Cyflwyno adroddiad Pennaeth Adran Amgylchedd.

#### 5.1. CAIS RHIF C18/0520/44/LL - TŶ MOELWYN, BRITANNIA TERRACE, PORTHMADOG 13 - 45

Cais ar gyfer dymchwel yr adeilad presennol a chodi gwesty gyda tŷ bwyta a bar atodol ynghyd â newidiadau i'r fynedfa, creu llecynnau parcio a thirlunio a darparu lle biniau (cynllun diwygiedig).

**AELOD LLEOL:** Cynghorydd Nia Jeffreys

[Dolen i'r dogfennau cefndir perthnasol](#)

#### 5.2. CAIS RHIF C19/0556/21/LL - FFERM TALYBONT UCHAF, TAL Y BONT, BANGOR 46 - 57

Newid defnydd adeilad amaethyddol i weithdy mecanig trin peiriannau cychod (Defnydd Dosbarth B1).

**AELOD LLEOL:** Cynghorydd Dafydd Meurig

[Dolen i'r dogfennau cefndir perthnasol](#)

**5.3. CAIS RHIF C19/0687/14/LL - REDLINE GO-KART CENTRE, LÔN CAE FFYNNON, YSTÂD DDIWYDIANNOL CIBYN, CAERNARFON** 58 - 66

Cais llawn i newid defnydd adeilad o ddefnydd D2 (canolfan cartio dan do) i ddefnydd B2 (defnydd diwydiannol cyffredinol).

**AELOD LLEOL:** Cynghorydd Jason Parry

[Dolen i'r dogfennau cefndir perthnasol](#)

---

## PWYLLGOR CYNLLUNIO 2/9/19

---

**Yn bresennol:** Y Cyngorydd Elwyn Edwards – Cadeirydd  
Y Cyngorydd Eric M. Jones – Is-Gadeirydd

**Y Cyngorwyr:** Stephen Churchman, Louise Hughes, Anne Lloyd Jones, Berwyn Parry Jones, Elin Walker Jones, Huw G. Wyn Jones, Dilwyn Lloyd, Edgar Wyn Owen, Gareth A. Roberts, Eirwyn Williams ac Owain Williams.

**Eraill a wahoddwyd:** Y Cyngorydd Mair Rowlands (Aelod Lleol).

**Hefyd yn bresennol:** Gareth Jones (Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio), Cara Owen (Rheolwr Cynllunio), Gareth Roberts (Uwch Swyddog Rheolaeth Datblygu Trafnidiaeth), Rhun ap Iarll (Uwch Gyfreithiwr) a Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**Ymddiheuriadau:** Y Cyngorydd Simon Glyn.

### 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL

(a) Datganodd yr aelodau canlynol fuddiant personol, yn yr eitemau canlynol am y rhesymau a nodir:

- Y Cyngorydd Berwyn Parry Jones yn eitem 5.2 ar y rhaglen (cais cynllunio rhif C19/0078/11/LL), oherwydd ei fod yn Aelod o Fwrdd Cartrefi Cymunedol Gwynedd;
- Y Cyngorydd Owain Williams yn eitemau 5.3 a 5.4 ar y rhaglen (ceisiadau cynllunio rhifau C19/0592/43/LL a C19/0593/43/DA), oherwydd ei fod yn berchen yr eiddo lle'r oedd y cais.

Roedd yr aelodau o'r farn eu bod yn fuddiannau a oedd yn rhagfarnu a gadawsant y Siambr yn ystod y drafodaeth ar y ceisiadau.

(b) Datganodd y Cyngorydd Mair Rowlands (nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), ei bod yn aelod lleol mewn perthynas i eitem 5.2 ar y rhaglen, (cais cynllunio rhif C19/0078/11/LL).

Ymneilltuodd yr aelod i ochr arall y Siambr yn ystod y drafodaeth ar y cais dan sylw ac ni fu iddi bleidleisio ar y mater.

### 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 22 Gorffennaf 2019, fel rhai cywir.

### 3. CEISIADAU CYNLLUNIO

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r ceisiadau canlynol i ddatblygu.

Ymhelaethwyd ar fanylion y ceisiadau ac ymatebwyd i gwestiynau mewn perthynas â'r cynlluniau ac agweddau o'r polisiau.

### PENDERFYNWYD

1. Cais Rhif C19/0338/42/LL – Bwthyn Bridyn, Lôn Bridyn, Morfa Nefyn, Pwllheli

Estyniad porth blaen, addasiadau i'r to ac ymestyn adeilad allanol i greu anecs.

- (a) Ymhelaethodd y Rheolwr Cynllunio ar gefndir y cais, gan nodi y gohiriwyd y cais yng nghyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 22 Gorffennaf 2019, er mwyn cynnal ymweliad safle a chynnal trafodaethau pellach gyda'r asiant/ymgeisydd ynglŷn â'r balconi llawr cyntaf. Nodwyd yn dilyn trafodaethau gyda'r asiant, bod yr elfen balconi ar flaen yr eiddo wedi ei ddiddymu o'r cais. 'Roedd rhai o'r aelodau wedi ymweld â'r safle cyn y cyfarfod.

Roedd y datblygiad yn dderbyniol o safbwynt polisïau lleol a chenedlaethol perthnasol am y rhesymau a roddwyd yn yr adroddiad.

- (b) Cynigwyd ac eiliwyd i ganiatáu'r cais.

Nododd aelod ei gwerthfawrogiad o'r ymweliad safle ac y byddai'r bwriad yn welliant. Ychwanegodd aelod ei bod yn falch bod yr elfen balconi wedi ei ddiddymu o'r cais ac y byddai'r bwriad yn sicrhau'r adeilad ar gyfer y dyfodol.

### **PENDERFYNWYD caniatáu'r cais.**

Amodau:

1. 5 mlynedd
2. Unol â'r cynlluniau diwygiedig
3. Llechi
4. Gorffeniad i gydweddu
5. Defnyddio'r anecs fel defnydd atodol i'r tŷ yn unig
6. Amod lefel llawr CNC

Nodyn yn cyfeirio at lythyr CNC

## **2. Cais Rhif C19/0078/11/LL – Cyn-Glwb Cymdeithasol Dinas Bangor, Ffordd Deiniol, Bangor**

Darparu 38 uned breswyl (gan gynnwys cymysg o unedau farchnad agored ac unedau fforddiadwy), manau parcio a mynedfa.

- (a) Ymhelaethodd y Rheolwr Cynllunio ar gefndir y cais, gan nodi bod y safle yn llecyn o dir diffaith gyferbyn â Ffordd Farrar a Ffordd Deiniol yn Ninas Bangor. Tynnodd sylw bod caniatâd cynllunio gweithredol ar y safle ar gyfer 49 uned 1 a 2 llofft, a ganiatawyd ar apêl.

Amlygodd bod egwyddorion dylunio'r adeilad arfaethedig yn dilyn yr egwyddorion hynny a drafodwyd gan yr Arolygydd Cynllunio ar yr apêl. Arddangoswyd cynlluniau o ran y caniatâd cynllunio gweithredol a'r cais gerbron. Nododd bod cynlluniau'r cais gerbron yn welliant o ran dyluniad, gyda lleihad o 11 uned a bod ffurf ac uchder yr adeilad yn weddol debyg, felly ni fyddai'n golygu effaith gwahanol ar gymdogion. Cydnabodd bod rhai pryderon yn lleol am raddfa a deunyddiau'r datblygiad, ond ni ystyriwyd y byddai'r rhain yn amhriodol o fewn cyddestun trefol y safle. Cyfeiriodd at benderfyniad diweddar i ganiatáu apêl cyn safle Jewson ym Mangor lle'r oedd cydnabyddiaeth oherwydd bod safle o fewn canol dinas bod ychydig o or-edrych cymunedol yn deillio o ddatblygiad o'r fath. Nododd y ystyriwyd bod y bwriad yn dderbyniol a ni fyddai'n cael effaith annerbyniol ar fwynderau preswyl na chyffredinol trigolion lleol o ystyried nid oedd newid yn y ffurf a'r dwysedd.

Tynnodd sylw nad oedd unrhyw bryderon o ran trafndiaeth a mynediad. Ymhelaethodd bod 38 man parcio yn rhan o'r bwriad a bod y safle, oherwydd ei leoliad yng Nghanol Dinas Bangor, gyda chysylltiadau trafndiaeth cyhoeddus ac yn agos at gyfleusterau.

Nododd bod Cartrefi Cymunedol Gwynedd (CCG), fel rhan o'r cais, wedi cyflwyno Datganiad Tai Fforddiadwy a Datganiad Cymysgedd Tai. Nododd bod y wybodaeth yn y dogfennau yma yn gyson gyda'r angen a oedd wedi ei adnabod gan yr Uned Strategol Tai. Eglurodd bod y datblygiad wedi ei gynnwys i dderbyn Grant Tai Cymdeithasol gan Lywodraeth Cymru. Ymhelaethodd y byddai'r bwriad yn darparu 23 uned 2 lofft a 15 uned 1 llofft gyda 9 ohonynt yn rai rhent cymdeithasol, 17 yn rhai rhent canolig a 12 yn rhai rhent marchnad agored.

Ymhelaethodd y cyflwynwyd Datganiad Cymunedol ac leithyddol gyda'r cais, er nad oedd yn ofynnol. Eglurodd ers cofrestru'r cais y mabwysiadwyd y Canllaw Cynllunio Atodol: Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy. Nododd y derbyniwyd datganiad pellach a oedd yn cyd-fynd gyda gofynion y Canllaw Cynllunio Atodol. Adroddwyd y derbyniwyd sylwadau'r Uned Iaith ar y datganiad a oedd yn cydnabod ei fod yn ddatganiad trylwyr, mai CCG a fyddai'n rheoli'r safle ac fe fyddai'r effaith ar yr iaith Gymraeg yn niwtral gyda'r bwriad yn cyfarch angen lleol.

Nododd nid oedd cyfraniad addysgol yn ofynnol, ond bod gofyn i'r ymgeisydd roi cyfraniad o £8525.39 ar gyfer darpariaeth llecynnau agored er mwyn gwella, cynnal neu greu mannau chwarae addas oddi ar y safle.

Roedd y datblygiad yn dderbyniol o safbwynt polisiâu lleol a chenedlaethol perthnasol am y rhesymau a roddwyd yn yr adroddiad.

- (b) Yn manteisio ar yr hawl i siarad nododd cynrychiolydd yr ymgeisydd y prif bwyntiau canlynol:-
- Bod caniatâd cynllunio actif yn bodoli ar gyfer y safle a byddai'r bwriad gerbron yn golygu lleihad o 11 uned;
  - Bod dyluniad yr unedau yn cyrraedd gofynion tai fforddiadwy;
  - Darperir 38 man parcio fel rhan o'r datblygiad;
  - Byddai'r bwriad yn cyfarch yr angen lleol am unedau fforddiadwy, gyda 68% o'r unedau yn rhai fforddiadwy;
  - Bod y safle yn segur ers 10 mlynedd yn dilyn dymchwel y cyn adeilad a byddai'r datblygiad yn gwella'r safle;
  - Bod yr ymgeisydd wedi cydweithio gyda'r Uned Strategol Tai a byddai'r bwriad yn cyfarch angen lleol;
  - Yn unol â'r polisi gosod rhoddir blaenoriaethau ychwanegol i rai gyda chysylltiad lleol;
  - Byddai'r bwriad yn darparu unedau modern yng nghanol y Ddinas.
- (c) Gwnaed y prif bwyntiau canlynol gan aelod lleol (nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn):-
- Ei bod yn siarad yn ogystal ar ran y Cynghorydd Catrin Wager a thrigolion lleol;
  - Yn falch bod y safle yn cael ei ddatblygu;
  - Fe fyddai'r unedau 1 a 2 ystafell wely yn gymysg o ran rhent gan obeithio diwallu angen lleol;
  - Pryder bod y dyluniad ddim yn gweddu i'r ardal o ran ei uchder ac ymddangosiad;
  - Darperir 38 man parcio fel rhan o'r datblygiad ond efallai nad oedd y ddarpariaeth yn ddigonol o ystyried ceir ymwelwyr;
  - Byddai'n rhaid colli mannau parcio ar Ffordd Farrar wrth osod llinellau melyn wrth ymyl y storfa biniau;
  - Byddai gor-edrych, cysgodi a cholli golau yn deillio o'r datblygiad;
  - Y prif bryder yn lleol oedd y cynnydd mewn traffig. Byddai'r mynediad i'r safle yn creu effaith gydag anhawster eisoes gyda 2 ffrwd traffig yn uno i Ffordd Deiniol. Gallai ychwanegu at lif traffig cylchfan ASDA a oedd yn brysur a pheryg ar rai adegau;
  - Nid oedd trigolion lleol wedi teithio i Bwllheli ar gyfer y cyfarfod oherwydd eu bod yn ddibynnol ar gludiant cyhoeddus;



- Er nid yn faterion cynllunio roedd angen nodi materion o ran wal gynnal ac effaith datblygu'r safle ar dai cyfagos, gyda rhai perchnogion wedi talu am wneud gwaith yn dilyn difrod a oedd yn deillio o ddymchwel y cyn adeilad;
- Bod y safle yn un strategol bwysig a fyddai'n darparu unedau fforddiadwy;
- Ei bod yn gefnogol i'r cais ond bod angen rhoi ystyriaeth lawn i'r pryderon lleol;
- Fe ddylai'r Pwyllgor ystyried cynnal ymweliad safle yn enwedig er mwyn gweld y sefyllfa traffig.

(ch) Cynigwyd ac eiliwyd i ganiatáu'r cais.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y prif sylwadau canlynol gan aelodau:

- Nid oedd yr Uned Drafnidiaeth yn gwrthwynebu'r bwriad ac roedd y datblygiad yn welliant i'r cynllun a ganiatawyd ar apêl;
- Ddim yn fodlon gyda dyluniad, dwysedd a graddfa'r datblygiad ond roedd yn welliant i'r hyn a ganiatawyd ar apêl o ran dwysedd, wedi ei osod yn ôl ac edrychiad mwy agored i'r blaen. Yn cydnabod sylwadau'r aelod lleol ac er ddim yn hollol fodlon gyda'r bwriad yn cefnogi'r cais;
- Nid oedd y datblygiad yn unol â pholisi PCYFF5 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (CDLI), roedd y dyluniad yn lleihau'r defnydd o egni gan fodloni gofynion PCYFF6 ond nid oedd yn bodloni gofynion PCYFF5 o ran ynni cynaliadwy. Roedd mesurau cynaeafu dŵr yn rhan o'r bwriad ond dylid bod modd ymgorffori mwy o elfennau ynni cynaliadwy yn y datblygiad megis paneli solar;
- Gellir hysbysu'r ymgeisydd o ran sylwadau'r aelod o ran ymgorffori mwy o elfennau ynni cynaliadwy;
- Bod y cynllun gerbron yn welliant i'r caniatâd gweithredol ond roedd lleoliad y fynedfa i'r safle yn beryglus. Roedd y darn yma o'r ffordd yn eithriadol o brysur, gyda cheir yn croesi a man aros bws ar ochr arall y ffordd, a'i fod yn debygol y byddai ceir yn pasio'r bysiau wrth iddynt stopio. Yn rhagweld y byddai damweiniau yn digwydd yn rheolaidd ar y ffordd. Yn deall pe gwrthodir y cais y byddai'r cais yn cael ei ganiatáu ar apêl;
- Yn fodlon gydag egwyddor y datblygiad ond pryder o ran maint a dwysedd y datblygiad ynghyd â materion trafnidiaeth. Roedd y fynedfa wedi ei leoli yn y man mwyaf perygl. O ystyried y difrod i adeiladau cyfagos o ganlyniad i ddymchwel y cyn-glwb cymdeithasol, a fyddai'n bosib gosod amod i sicrhau bod dim difrod i adeiladau cyfagos yn deillio o'r datblygiad? Annog yr ymgeisydd i gydweithio gyda Menter Iaith Bangor. A fyddai'n bosib cynnal cyfarfod y Pwyllgor ym Mangor pan yr oedd ceisiadau mawr yn ardal Bangor gerbron?
- Bod angen sicrwydd o ran diogelwch y fynedfa;
- Bod yr Uwch Swyddog Rheolaeth Datblygu Trafnidiaeth wedi nodi ei farn broffesiynol am y fynedfa ac roedd yn dderbyniol;
- Bod gan Cartrefi Cymunedol Gwynedd bolisïau o ran cynaliadwyedd. O ran lefelau rhent y fflatiau cymdeithasol canolradd, yn unol â Pholisi Rhent Canolradd CCG, fyddai'n bosib derbyn cadarnhad o ran lefelau rhent?

(c) Mewn ymateb i'r sylwadau uchod, nododd y swyddogion:

- Bod caniatâd am ddatblygiad sylweddol mwy ar y safle yn weithredol ac o ran casgliadau gwastraff/ail-gylchu, byddai'r lorïau yn gweithredu yn yr un modd a wneir ar strydoedd eraill gan aros yng nghanol y ffordd am gyfnod. Nid oedd angen gosod ychwaneg o linellau melyn ond gellir adolygu'r sefyllfa pe fyddai materion yn codi;
- Bod y fynedfa yn dderbyniol gan ei fod yn ffordd unffordd ac nid oedd rhaid croesi yn groes i'r llif heblaw bod y cerbyd yn mynd i gyfeiriad Ffordd Farrar. Amcangyfrifir y byddai rhwng 100 - 150 o symudiadau ychwanegol yn deillio o'r datblygiad o ystyried y miloedd o symudiadau dyddiol yn bresennol;
- Bod caniatâd cynllunio gweithredol ar gyfer datblygiad 49 uned a fyddai'n darparu 8 uned fforddiadwy ar y safle eisoes. Roedd angen cydnabyddedig am unedau

fforddiadwy yn yr ardal a byddai'r bwriad yn darparu unedau cymysg o ran eu math a daliadaeth;

- Yn deall y pryderon o ran dyluniad, ond roedd rhaid cadw mewn cof bod maint, dyluniad a swmp wedi eu gwyntyllu fel rhan o'r apêl a daethpwyd i'r casgliad bod y dyluniad yn dderbyniol. Roedd dyluniad yr adeilad yn ddyluniad gwell i'r hyn a ganiatawyd ar apêl;
- O ran cynaliadwyedd, gwnaed asesiad cytbwys gan ystyried polisïau PS5, PCYFF5 a PCYFF6 o'r CDLI. Nid oedd yn bosib i'r bwriad fodloni polisi PCYFF5 yn llawn oherwydd dwysedd y datblygiad. Mi fyddai'n bosib efallai i ymgorffori paneli solar i'r datblygiad ond byddai'n golygu newid dyluniad yr adeilad. Roedd y bwriad yn cyfarch polisi PCYFF6 o ran cadwraeth egni ac yn unol â gofynion Systemau Draenio Cynaliadwy (SUDS). Derbyn safbwynt yr aelod ond wrth gymryd i ystyriaeth y caniatâd cynllunio gweithredol ac ymrwymiad yr ymgeisydd i bolisïau eraill o ran cynaliadwyedd roedd y bwriad yn dderbyniol;
- Bod y fynedfa wedi ei chaniatáu fel rhan o'r caniatâd cynllunio gweithredol ar gyfer 49 uned ynghyd â chaniatâd yn fwy diweddar i ddefnyddio'r safle fel maes parcio;
- O ran Polisi Rhent Canolradd CCG, mai 80% o werth rhent marchnad agored y byddai lefel rhent y fflatiau cymdeithasol canolradd.

**PENDERFYNWYD dirprwyo'r hawl i'r Uwch Reolwr Cynllunio i ganiatáu'r cais yn ddarostyngedig i'r ymgeisydd gwblhau cytundeb o dan Adran 106 er mwyn sicrhau cyfraniad ariannol ar gyfer darpariaeth llecynnu agored ac i'r amodau isod:-**

1. 5 mlynedd.
2. Yn unol â'r cynlluniau diwygiedig.
3. Samplau o'r deunyddiau a'r lliwiau ar gyfer yr adeilad i'w cytuno gyda'r ACLL.
4. Amodau Priffyrdd ar gyfer parcio a'r fynedfa.
5. Dim uned i'w feddiannu hyd nes bod y system ddŵr cynaliadwy wedi ei gwblhau ac yn gwbl weithredol.
6. Tirlunio meddal a chaled.
7. Datblygiad i'w gario allan yn unol â mesurau lliniaru a gyfeiriwyd atynt o fewn yr Adroddiad Ecolegol Rhagarweiniol.
8. Cyfyngu ar oriau gweithio i 08:00 - 18:00 yn yr wythnos, 08:00 - 13:00 ar ddydd Sadwrn a dim o gwbl yn ystod y Sul a Gwyliau Banc.
9. Cytuno manylion parthed enwau Cymraeg ar gyfer y datblygiad ynghyd ac arwyddion sy'n hysbysu ac yn hyrwyddo'r datblygiad o fewn ac oddi allan y safle.
10. Sicrhau fod ardal biniau yn cael ei ddarparu a'i gadw o fewn y safle cyn preswyllo'r unedau.
11. Sicrhau cynllun/trefniadau ar gyfer darparu'r unedau fforddiadwy.
12. Amod gwydr afloyw

### **3. Cais Rhif C19/0592/43/LL - Parc Carafanau a Chwrs Golff Gwynus, Pistyll, Pwllheli**

Gosod tanc carthion yng nghae 470 ynghyd â system ymdreiddio o'r tanc.

- (a) Ymhelaethodd y Rheolwr Cynllunio ar gefndir y cais, gan nodi bod lleoliad y tanc yn wahanol i'r hyn a ganiatawyd o dan cais blaenorol i osod unedau gwyliau ar gae cyfochrog. Eglurodd bod y tanc wedi ei osod a felly ei fod yn gais ôl-weithredol. Nododd ni fyddai'r tanc carthion i'w weld uwchben y tir a roedd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi trwyddedu'r defnydd.

Roedd y datblygiad yn dderbyniol o safbwynt polisïau lleol a chenedlaethol perthnasol am y rhesymau a roddwyd yn yr adroddiad.

- (b) Cynigwyd ac eiliwyd i ganiatáu'r cais.

Mewn ymateb i sylwadau gan aelod, nododd y Rheolwr Cynllunio bod sylwadau Cyfoeth Naturiol Cymru ar y cais o ran bioamrywiaeth yn rhai safonol a oedd yn atgoffa'r awdurdod o'i rôl. Cyfeiriodd at sylwadau'r Uned Bioamrywiaeth ar y ffurflen sylwadau ychwanegol a oedd yn cadarnhau nid oedd pryderon bioamrywiaeth.

Mewn ymateb i sylw pellach, nododd y Rheolwr Cynllunio ei bod yn derbyn y sylw, nid oedd y ffurflen sylwadau ychwanegol ar y wefan ond mai'r ddogfen statudol oedd y rhybudd penderfyniad.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais.**

Amodau:

1. Unol gyda'r cynlluniau.
2. Cytuno a gweithredu cynllun hadu ar gyfer adfer y safle.

**4. Cais Rhif C19/0593/43/DA - Parc Carafanau a Chwrs Golff Gwynus, Pistyll, Pwllheli**

Diwygiad di-faterol i symud lleoliad y lleiniau ar gae 470.

- (a) Ymhelaethodd y Rheolwr Cynllunio ar gefndir y cais, gan nodi bod y cais am ddiwygiadau ansylweddol i gynlluniau a ganiatawyd yn flaenorol. Eglurodd bod y newidiadau yn ymwneud a lleoliad a gogwydd y 5 llain uned sefydlog oedd i'w lleoli ar gae 470. Nododd bod y slabiau concrid ar gyfer creu'r lleiniau wedi cychwyn cael eu hadeiladu, a hynny yn unol gyda'r cynllun a gyflwynwyd fel rhan o'r cais cynllunio presennol, ac nid yr hyn a ganiatawyd ar gais C15/0495/43/LL.

Nododd bod gosodiad y lleiniau ymhellach i ffwrdd o'r safle carafanau presennol ond ni fyddai effaith gweledol sylweddol wahanol er y byddai'n well pe byddai'r datblygiad yn unol â'r caniatâd cynllunio gwreiddiol. Ychwanegodd bod y cais yn rhesymol a fe fyddai'n rheoli'r sefyllfa, felly argymhellwyd i ganiatáu'r cais gydag amodau.

- (b) Cynigwyd ac eiliwyd i ganiatáu'r cais.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y prif sylwadau canlynol gan aelodau:

- Ei fod yn ymddangos bod y newid yn lleoliad a gogwydd y lleiniau er mwyn lleoli mwy o leiniau ar y tir. Dylai bod yr ymgeisydd yn cydymffurfio â gweddill amodau caniatâd cais rhif C15/0495/43/LL cyn cyflwyno cais arall;
- Bod rhaid ystyried y cais gerbron, ni fyddai'r bwriad yn cael effaith.

- (c) Mewn ymateb i'r sylwadau uchod, nododd swyddogion:

- Ni ellir atal ymgeisydd rhag cyflwyno cais ac fe benderfynir ar geisiadau ar eu haeddiant. Roedd y cais gerbron ar gyfer newid lleoliad a gogwydd 5 llain uned sefydlog a bod angen rhoi ystyriaeth i effaith y newid o gymharu â'r hyn a ganiatawyd eisoes. Bod gweithrediad gwahanol i'r hyn a ganiatawyd o dan gais rhif C15/0495/43/LL, wedi dod i'r amlwg wrth gynnal trafodaethau gyda'r ymgeisydd a'r asiant ar y safle a bod y sefyllfa yn cael ei gywiro wrth gyflwyno'r cais yma.
- Ni ddylid rhagdybio, roedd rhaid delio ag unrhyw gais ar ei haeddiant ei hun.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais.**

Amodau:

1. Yn unol â'r cynlluniau
2. Angen cydymffurfio gyda gweddill yr amodau ar ganiatâd cynllunio C15/0495/43/LL.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00pm a daeth i ben am 1.55pm.

**CADEIRYDD**

# Eitem 5.1

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 23/09/2019
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	CAERNARFON

## **Rhif: 1**

**Cais Rhif:** C18/0520/44/LL

**Dyddiad  
Cofrestru:** 04/07/2019

**Math y Cais:** Llawn - Cynllunio/Full - Planning

**Cymuned:** Porthmadog

**Ward:** Dwyrain Porthmadog East

**Bwriad:** Cais ar gyfer dymchwel yr adeilad presennol a chodi gwesty gyda ty bwyta a bar atodol ynghyd a newidiadau i'r fynedfa, creu llecynnau parcio a thirlunio a darparu lle biniau (cynllun diwygiedig) / Application for the demolition of existing building and erection of hotel with ancillary restaurant and bar together with associated works including alterations to existing vehicular access, creation of parking spaces, landscaping and provision of bin store (revised scheme)

**Lleoliad:** Ty Moelwyn, Britannia Terrace, Porthmadog, Gwynedd LL49 9AB

**Crynodeb o'r  
Argymhelliad:** CANIATAU GYDAG AMODAU

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 23/09/2019
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	CAERNARFON

## 1. Disgrifiad:

- 1.1 Cais llawn i ddymchwel adeilad presennol ac ail ddatblygu'r safle trwy godi gwesty gyda thŷ bwyta a bar atodol ynghyd a chynnal newidiadau i'r fynedfa gerbydol, creu llecynnau parcio a storfa beics ac ardal wasanaeth gan gynnwys ardal cadw biniau a thirlunio.
- 1.2 Er eglurdeb, mae'r cais yma wedi ei ddiwygio o'r hyn a gyflwynwyd yn wreiddiol. Cyflwynwyd y cais yn wreiddiol ar gyfer dymchwel yr adeilad a chodi gwesty newydd 3 llawr i gynnwys 66 ystafell wely, tŷ bwyta a bar gydag adnoddau cysylltiol gan gynnwys 57 man parcio.
- 1.3 Mae'r cais bellach yn cynnig y canlynol:
- Adeilad 3/4 llawr sydd yn darparu cyfanswm arwynebedd llawr newydd o 2,978m<sup>2</sup>
  - 80 ystafell wely dros 3/4 llawr, tŷ bwyta a bar ar y llawr daear gydag adnoddau cysylltiol
  - 56 llecyn parcio (gan gynnwys 3 llecyn wedi ei ddynodi i ddefnyddwyr anabl) a storfa beics
  - Yn allanol, mi fydd yr adeilad wedi ei orffen trwy gyfuniad o rendr, cladin pren a charreg naturiol ar y waliau a llechen naturiol ar y toeau crib
  - Tirlunio meddal trwy'r safle gan gynnwys plannu coed a pherthi
- 1.4 Mae'r safle mewn lleoliad amlwg wrth ddynesu at dref Porthmadog dros Y Cob o gyfeiriad y de ddwyrain. Mae'r safle presennol yn cynnwys adeilad a ddefnyddiwyd tan yn weddol ddiweddar fel swyddfeydd ac fe welir mynedfa safonol oddi ar y briffordd gyfagos a llecynnau parcio heibio cefn y safle. Mae llwybr cerdded a beicio yn rhedeg heibio ochr a chefn y safle tra bod llwybr cyhoeddus arall gyferbyn yn ddyrchafedig ar y Cob sydd hefyd yn cael ei rannu gyda rheilffordd Ucheldir Cymru.

Mae'r safle oddimewn neu'n agos i'r dynodiadau canlynol:

- Ardal Tirwedd Arbennig Glaslyn a'r Dwyrdd
- Ardal Gadwraeth Porthmadog
- Tirwedd o ddiddordeb hanesyddol arbennig Aberglaslyn
- Ardal llifogydd C1
- Safle o ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Morfa Harlech
- Safle o ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Glaslyn
- Safle Cadwraeth Arbennig Pen Llŷn a'r Sarnau

Nodir hefyd fod Y Cob yn strwythur rhestredig gradd II tra bod rhes o dai preswyl Tros y Bont (Britannia Place) i gyfeiriad y gogledd orllewin hefyd yn adeiladau rhestredig gradd II.

- 1.5 Mae'r cais yma, oherwydd ei faint, yn cael ei diffinio fel datblygiad mawr. Yn unol ag anghenion Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 derbyniwyd Adroddiad Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio fel rhan o'r cais. Mae'r adroddiad yn dangos fod y datblygwyr wedi hysbysebu'r bwriad i'r cyhoedd ac ymgynghorwr statudol cyn cyflwyno cais cynllunio ffurfiol. Mae'r adroddiad yn cynnwys copïau o'r ymatebion a dderbyniwyd ac mae'r cais cynllunio wedi'i lunio i gymryd y sylwadau hynny i ystyriaeth.
- 1.6 Fel rhan o'r cais cyflwynwyd y dogfennau canlynol:

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 23/09/2019
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	CAERNARFON

- Aseiad Effaith Llifogydd
- Adroddiad Ymgynghori Cyn Cyflwyno (PAC)
- Aseiad Geo Amgylcheddol (Llygredd)
- Aseiad Angen a Dilyniannol
- Datganiad Cynllunio
- Datganiad Dylunio a Mynediad
- Datganiad Ieithyddol
- Aseiad Rhywogaethau wedi eu Gwarchod
- Datganiad Trafnidiaeth
- Datganiad Effaith Treftadaeth
- Datganiad Cadwraeth Dŵr
- Aseiad Ynni

## 2. Polisiau Perthnasol:

2.1 Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ceisiadau yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaeth faterol cynllunio yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol, a'r Cynllun Datblygu Lleol.

2.2 Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i ymgymryd â chamau rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r 7 amcan llesiant sydd o fewn y Ddeddf. Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu gynaliadwy', fel sydd wedi'i ddatgan yn Neddf 2015. Wrth ffurfio'r argymhelliad mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

### 2.3 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026 mabwysiadwyd 31 Gorffennaf 2017

PS 1: Yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig

ISA 1: Darpariaeth isadeiledd

PS 4: Trafnidiaeth gynaliadwy, datblygiad a hygyrchedd

TRA 2: Safonau parcio

TRA 4: Rheoli ardrawiadau cludiant

PS 5: Datblygu cynaliadwy

PCYFF 1: Ffiniau datblygu

PCYFF 2: Meini prawf datblygu

PCYFF 3: Dylunio a siapio lle

PCYFF 4: Dylunio a thirweddu

PCYFF 5: Rheoli carbon

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 23/09/2019
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	CAERNARFON

PCYFF 6: Cadwraeth dwr

PS 13: Darparu cyfle ar gyfer economi ffyniannus

MAN 1: Datblygiad arfaethedig mewn canol trefi

PS 14: Yr economi ymwelwyr

TWR 2: Llety gwyliau

PS 19: Gwarchod a ble'n briodol gwella'r amgylchedd naturiol

AMG 2: Ardaloedd o dirwedd arbennig

AMG 3: Gwarchod a gwella nodweddion a rhinweddau sydd yn nodedig i gymeriad y dirwedd leol

AMG 5: Cadwraeth bioamrywiaeth leol

PS 20: Diogelu a ble'n briodol gwella asedau treftadaeth

AT 1: Ardaloedd cadwraeth, safleoedd treftadaeth y byd a thirweddau, parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig

AT 4: diogelu safleoedd archeolegol nad ydynt wedi'u dynodi a'u gosodiad

Mae'r canlynol hefyd yn berthnasol:

Canllaw Cynllunio Atodol (CCA): Cyfleusterau a llety i ymwelwyr

CCA: Cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy

#### 2.4 **Polisiâu Cenedlaethol:**

Polisi Cynllunio Cymru fersiwn 10 2018

Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 4: Datblygiad manwerthol a masnachol

NCT 5: Cynllunio a chadwraeth natur

NCT 12: Dylunio

NCT 13: Twristiaeth

NCT 15: Datblygu a pherygl llifogydd

NCT 18: Trafnidiaeth

NCT 20: Cynllunio a'r Gymraeg

NCT 23: Datblygu economaidd



PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 23/09/2019
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	CAERNARFON

NCT 24: Yr amgylchedd hanesyddol

### 3. Hanes Cynllunio Perthnasol:

3.1 Nid yw'n ymddangos fod unrhyw hanes Cynllunio diweddar yn ymwneud a'r safle.

### 4. Ymgynghoriadau:

Cyngor Cymuned/Tref: Dim gwrthwynebiad ond yn dilyn sawl trigolyn lleol yn mynegi pryder am yr elfen parcio, nodir y dylid adolygu ac ystyried os yw 56 o lefydd parcio yn ddigonol ar gyfer gwesty efo 80 o ystafelloedd, tŷ bwyta, bar a nifer o bobl yn gweithio yno.

Uned Drafnidiaeth: Sylwadau manwl wedi eu cyflwyno. Trafodir yr elfen yma mewn manylder yn yr adroddiad.

Cyfoeth Naturiol Cymru: Awgrymir cynnwys amodau penodol yn ymwneud a lefelau llawr gorffenedig, angen cyflwyno Cynllun Argyfwng Llifogydd ac angen cyflwyno Cynllun Rheoli Amgylcheddol adeiladu i'w gytuno gyda'r Awdurdod Lleol.

Dŵr Cymru: Ers cyflwyniad gwreiddiol y cais cynhaliwyd asesiad hydroleg ar y rhwydwaith lleol sydd wedi cadarnhau y gall y system ddygymod a'r datblygiad. O ganlyniad tynnir y gwrthwynebiad gwreiddiol yn ôl a rhoddir cyngor a chyfarwyddyd safonol.

Uned Gwarchod y Cyhoedd: Cytunir gan ganfyddiadau'r adroddiad amgylcheddol ac awgrymir mesurau a rheoliadau addas.

Uned Bioamrywiaeth: Yn dilyn asesiad manwl o'r bwriad a'r wybodaeth arbenigol a gyflwynwyd ac yn unol â gofynion Rheoliadau Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017, nid yw Cyngor Gwynedd fel yr awdurdod cymwys o'r farn y byddai effaith arwyddocaol ar yr ardal gadwraeth arbennig ac felly ni wrthwynebir y bwriad. Awgrymir cynnwys amod i ddilyn canfyddiadau'r asesiad Ecolegol.

CADW: Wedi ystyried y wybodaeth yn ofalus, nid oes ganddom unrhyw sylwadau i wneud ynglŷn â'r datblygiad arfaethedig.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 23/09/2019
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	CAERNARFON

Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd: Oherwydd potensial fod olion hanesyddol o gyfnod defnydd y safle fel ffowndri yn yr 19eg ganrif, awgrymir cynnwys amod safonol i gynnal asesiad archeolegol o'r safle cyn cynnal y datblygiad

Gwasanaeth Tân ac Achub: Nid oes gan yr Awdurdod Tân unrhyw sylwadau i'w roi.

Uned Draenio Tir y Cyngor: Heb eu derbyn ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.

Uned Twristiaeth y Cyngor: Heb eu derbyn ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.

Uned Iaith y Cyngor: Heb eu derbyn ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.

Uned Llwybrau: Yn falch na fydd y cynlluniau yn amharu ar y llwybr cerdded a beicio presennol, serch hynny, credir ei bod yn rhesymol cynnwys amod i sicrhau y cedwir y llwybr yn agored ac i dynnu sylw'r datblygwr pe byddai angen cau'r llwybr dros dro, y bydd rhaid derbyn cymeradwyaeth o flaen llaw.

Ymgynghoriad Cyhoeddus: Rhoddwyd rhybudd ar y safle a gwybyddwyd trigolion cyfagos. Daeth y cyfnod hysbysebu i ben a derbyniwyd llythyrau / gohebiaeth yn gwrthwynebu ar sail:

- Diffyg llecynnau parcio/ Colled o lecynnau parcio presennol
- Diangen a gwybodaeth anghywir
- Effaith niweidiol ar fusnesau lleol
- Angen ystyried trigolion yn ystod cyfnod adeiladu
- Angen gwarchod yr amgylchedd, cymeriad hanesyddol a'r iaith Gymraeg
- Gôr ddatblygiad
- Effaith niweidiol ar fwynderau gweledol a chyffredinol yr ardal a chymeriad hanesyddol
- Dyluniad a gorffeniadau gwael 'safonol'
- Dim llecynnau 'chargo' ceir trydan
- Gosod cysail i ddatblygiadau mawr eraill

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 23/09/2019
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	CAERNARFON

Ymgynghoriad  
Cyhoeddus:

Yn ogystal â'r gwrthwynebiadau uchod derbyniwyd gwrthwynebiadau nad oedd yn wrthwynebiadau cynllunio dilys oedd yn cynnwys:

- Cyfeiriad at ddiffyg cydymffurfiaeth gyda pholisïau lleol sydd wedi eu disodli

Derbyniwyd llythyr / gohebiaeth yn cefnogi / rhoi sylwadau ar y cais ar sail:

- Croesawu swyddi newydd
- Croesawu ystafelloedd aros ychwanegol yn y dref a datblygiad y safle

## 5. Asesiad o'r ystyriaethau cynllunio perthnasol:

### Egwyddor y datblygiad

- 5.1 Yn unol â'r rhagdybiaeth o blaid datblygu gynaliadwy, dylai ceisiadau am ganiatâd cynllunio neu ar gyfer adnewyddu caniatâd cynllunio gael eu penderfynu yn unol â'r cynllun datblygu a gymeradwywyd neu a fabwysiadwyd ar gyfer yr ardal, oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall. Dywed Polisi Cynllunio Cymru dylai pob cais gael ei ystyried mewn perthynas â pholisïau cyfredol.
- 5.2 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (2011 - 2026) yw'r cynllun datblygu presennol ac fe welir cyfres o bolisïau sydd wedi eu nodi uchod sy'n berthnasol i'r cais yma.
- 5.3 Y prif bolisïau cynllunio perthnasol wrth ystyried yr egwyddor yn yr achos yma yw polisiau PCYFF 1, MAN 1, PS 5 a TWR 2. Mae PCYFF 1 yn datgan y caniateir cynigion tu mewn i ffiniau datblygu yn unol â pholisïau a chynigion eraill y cynllun yma, polisiau cenedlaethol ac ystyriaethau cynllunio eraill. O safbwynt yr elfen yma felly, credir fod y bwriad yn dderbyniol mewn egwyddor gan fod y safle yn gyfan gwbl o fewn y ffin ddatblygu gyfredol. Yn ogystal, mae polisi PS 5 yn nodi y dylid "*rhoi blaenoriaeth i ddefnyddio tir ac isadeiledd yn effeithiol, gan flaenoriaethu ailddefnyddio tir ac adeiladau a ddefnyddiwyd o'r blaen, lle bynnag bo hynny'n bosib oddi mewn i ffiniau datblygu'r... ganolfan gwasanaeth trefol*". Yn yr achos yma, er na chedwir yr adeilad presennol, mae'r bwriad yn cael ei ystyried yn briodol o safbwynt gofynion polisiau PCYFF 1 a PS 5 gan ei fod yn gwneud defnydd o safle a ddatblygwyd eisoes o fewn y ffin datblygu gyfredol.
- 5.4 Gan mai cais yw hwn ar gyfer datblygiad sydd yn darparu llety wedi ei wasanaethu ar ffurf gwesty, rhoddir ystyriaeth i ofynion perthnasol polisi TWR 2. Mae paragraff 6.3.64 o bolisi TWR 2 yn amlygu'r ffaith fod diffygion yn y math yma o ddarpariaeth yn bresennol ac nad oes ystod ddigonol o lety gwyliau o'r math yma yn ardal y cynllun. Credir felly fod gofynion y polisi yn gefnogol i'r egwyddor o ehangu'r ystod o ddarpariaeth a gwella safon a niferoedd o lety gyda gwasanaeth a geir.
- 5.5 Gan fod y safle wedi ei leoli y tu allan i'r canol tref fel sydd wedi ei diffinio yn y CDLL, roedd angen i'r datblygwr gyflwyno asesiad o'r angen a phrawf dilyniannol ar gyfer y bwriad er mwyn cydymffurfio gyda gofynion polisi MAN 1 yn ogystal â bodloni gofynion perthnasol Polisi Cynllunio Cymru a NCT 4. Mae eglurhad polisi MAN 1 yn

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 23/09/2019
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	CAERNARFON

cydnabod pwysigrwydd canolfannau fel Porthmadog ar yr economi leol trwy sicrhau fod amrywiaeth o swyddogaethau sy'n cyd-fynd a'i gilydd ar gael gan leihau'r angen i deithio a bod yn gatalydd i adfywio llwyddiannus a chynorthwyo i gynnal cymunedau cynaliadwy. Credir fod canfyddiadau'r Asesiad Dilyniannol ac Angen a gyflwynwyd yn canfod fod angen ar gyfer y datblygiad yn y lleoliad yma ac nad oes safleoedd addas eraill ar gael yn y dref ac o ganlyniad y byddai'r effaith ar ganol tref Porthmadog yn gymharol ddi-nod. Credir fod y rhan perthnasol o'r asesiad wedi profi'r angen am y datblygiad trwy roi ystyriaeth i'r cyflenwad presennol o'r math yma o lety yn yr ardal ehangach ac o fewn tref Porthmadog yn benodol (gan gynnwys caniatâd amlinellol ar gyfer gwesty arall yn rhan arall o'r dref). Cynhaliwyd asesiad o'r angen ar gyfer y gwesty gan ragamcanu dros gyfnod o amser yr angen ar gyfer y math yma o ddarpariaeth yng nghyd-destun y ddarpariaeth sydd eisioes yn bodoli ac sydd wedi derbyn caniatad. O ganlyniad, ac wedi i'r manylion gael eu hasesu gan yr Uned Bolisi Cynllunio ar y Cyd, credir fod y cyfiawnhad ar gyfer y datblygiad a'r holl elfennau cysylltiedig gan fod darlun cyflawn wedi ei gyflwyno sydd wedi ystyried yr effaith ar ganol tref Porthmadog a'r budd economaidd fyddai'n deillio o ddatblygiad o'r fath.

### Mwynderau gweledol

- 5.6 Gweler amrywiaeth ym maint a ffurf adeiladau cyfagos, er bod nodweddion hanesyddol i rai adeiladau, ni chredir fod unrhyw ffurf bendant yn bodoli o fewn yr ardal gyfagos. Mae'r adeilad presennol yn eithaf sylweddol ei faint gyda thri llawr iddo a tho hip llechi. Nid oes unrhyw nodweddion pensaernïol o ddiddordeb yn perthyn iddo ac mae'n debyg ei fod yn nodweddiadol o adeilad swyddfeydd o'i gyfnod (70au). Mae'r adeilad yn segur ers peth amser ac yn dirywio, mae wedi ei leoli i flaen y safle gydag ochr y ffordd gyhoeddus gyda'r parcio i'r cefn. Mae'r hyn a fwriedir yn dangos adeilad wedi ei leoli ymhellach yn ôl o'r ffordd gyhoeddus gyda'r maes parcio i'r blaen. Er bod y bwriad yn sylweddol wahanol i'r adeilad presennol mae hefyd yn arddangos nodweddion cyffredin.
- 5.7 Mi fyddai'r datblygiad yn ei gyfanrwydd yn creu newid gweledol amlwg ond ni chredir y byddai'r newid yma yn un annerbyniol. Yn sicr o ystyried hyn yn erbyn gofynion polisiau perthnasol credir y byddai yn "ychwanegu at a gwella cymeriad ac ymddangosiad y safle", fel yr amlinellir ym mholisi PCYFF 3: Dylunio a Siapio Lle.
- 5.8 Mi fyddai maint a swmp yr adeilad newydd yn ymddangos yn fwy na'r adeilad presennol o ganlyniad i newid yn ffurf yr adeilad a'r to o'r hyn sy'n bodoli eisioes ac fe welir cynnydd o oddeutu dwbl yr arwynebedd llawr o'r hyn sy'n bodoli eisioes. Er eglurdeb, dyma'r mesuriadau a'r manylion perthnasol:
- Uchder yr adeilad presennol yw 13.1m – Uchder yr adeilad newydd fyddai 13.1m
  - Uchder cyflawn (gan gynnwys lefel tir) yr adeilad presennol yw 16.85m – Uchder cyflawn yr adeilad newydd (gan gynnwys lefel tir) newydd fyddai 16.85m
  - Yr adeilad newydd yn rhannol to crib llechi ac yn rhannol to fflat
  - Cyfanswm arwynebedd llawr yr adeilad presennol yw 1450.5m<sup>2</sup> dros 3 llawr - cyfanswm arwynebedd llawr yr adeilad newydd fyddai 2,978m<sup>2</sup> dros 4 llawr.
  - Mae'r ardal gwasanaeth i'w ddarparu i gefn yr adeilad arfaethedig gyda gofod troi a pharcio i lori HGV.
- 5.9 Er y byddai'r adeilad newydd yn un sylweddol ni ystyrir y byddai'n or-ddatblygiad o'r safle gan y byddai digon o le gwag o'i gwmpas i ddarparu parcio ac ardal wasanaethu.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 23/09/2019
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	CAERNARFON

Byddai hefyd yn gymharol debyg o ran uchder a chyfrannedd i'r adeilad presennol ar y safle ac o ganlyniad ni ystyrir y byddai ei ymddangosiad ar y strydlun yn anghydnaws gydag adeiladau eraill cyfagos nac ychwaith gyda'i leoliad ar gyrion ardal adeiledig tref Porthmadog. Mae ol-troed yr adeilad yn fwy na'r presennol ond ystyrir ym mhob ystyr arall, yn enwedig graddfa, swmp a chymesuredd yr agoriadau fod yr adeilad newydd yn debyg i'r adeilad presennol. Cydnabyddir ei fod yn adeilad mwy modern ei olwg na'r adeilad presennol, yn enwedig yr elfen to fflat ac elfennau o'r deunyddiau, ond ni ystyrir fod hyn yn annerbyniol ar y safle yma. Mae ymdrech wedi ei wneud i gyflwyno agweddau megis toeau llechi ar ochrau'r rhan to fflat er mwyn creu nodweddion sy'n gyffredin gydag adeiladau'r ardal a thorri ar swmp yr adeilad. Gwelir hefyd amrywiaeth o ddeunyddiau ar y waliau allanol fydd yn creu diddordeb a hefyd yn cyfrannu tuag at leihau effaith weledol adeilad o'r maint yma. Mae'r amrywiaeth yn y cynnwys gorffeniadau allanol megis carreg naturiol, rendr a chladin coed ynghyd a thoeau gwastad a thoeau crib gyda defnydd o lechi naturiol. Credir hefyd fod hyn yn cyfleu edrychiadau cyffredinol o fewn yr ardal ac yn cyfleu i raddau'r hyn sydd yn bodoli eisioes.

